Senedd Maniffesto 2026

Chartered Institute of
**Environmental Health**

Sefydliad Siartredig
**Iechyd yr Amgylchedd**

# Lles Cymru:

## Blaenoriaethau ym maes Iechyd yr Amgylchedd ar gyfer Llywodraeth nesaf Cymru



# Cyflwyniad

Iechyd yr amgylchedd yw sylfaen cymdeithas iach. Mae'n diogelu'r aer rydyn ni'n ei anadlu, y bwyd rydyn ni'n ei fwyta, y cartrefi rydyn ni'n byw ynddynt, a'r mannau lle rydyn ni'n gweithio ac yn chwarae. Yn gryno, mae iechyd yr amgylchedd yn cefnogi lles yng Nghymru. Wrth i Gymru baratoi ar gyfer etholiadau'r Senedd yn 2026, rydym am sicrhau bod ymarferwyr iechyd yr amgylchedd yn gallu cyflawni eu rôl hanfodol i sicrhau iechyd y cyhoedd, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau, a chreu cymunedau gwydn.

Mae gan Gymru hanes balch o ran arfer iechyd yr amgylchedd, ond mae angen y proffesiwn nawr yn fwy nag erioed os yw pobl am allu ymddiried yn y byd o'u cwmpas. Rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru gymryd camau i sicrhau bod ymarferwyr iechyd yr amgylchedd yn gallu cyflawni eu potensial i gefnogi cymunedau a sicrhau cenedl iachach, ar hyn o bryd ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Yn y maniffesto hwn, rydym yn galw am gefnogaeth i'r gweithlu iechyd yr amgylchedd, lleihau anghydraddoldebau iechyd, a chreu mesurau diogelu cryfach i ddefnyddwyr. Edrychwn ymlaen at weithio gyda'r Llywodraeth nesaf a'r Senedd estynedig i sicrhau lles yng Nghymru.



# 1. Diogelu'r Gweithlu Iechyd yr Amgylchedd

**Mae ymarferwyr iechyd yr amgylchedd yn lliniaru pwysau ar y GIG trwy orfodi safonau uchel ym maes iechyd yr amgylchedd, lleihau colli cynhyrchiant trwy atal afiechydon y gellir eu hosgoi ac amddiffyn y cyhoedd rhag niwed yn yr amgylchedd.**

Ond mae prinder ymarferwyr iechyd yr amgylchedd eisoes, a disgwylir i'r sefyllfa hon waethygu ymhellach heb ddigon o bobl yn astudio ar gyfer cymwysterau. Yn y cyfamser, mae awdurdodau lleol yn dweud wrthym fod cadw staff yn broblem gan fod cyflogwyr eraill yn cynnig cyflog gwell. Er bod y prinder yn cael ei deimlo fwyaf o fewn awdurdodau lleol, mae'r broblem yn wir drwy Cymru gyfan. Llywodraeth Cymru sydd yn y sefyllfa orau i roi arweiniad i gefnogi awdurdodau lleol i ddatblygu'r genhedlaeth nesaf o ymarferwyr iechyd yr amgylchedd, ac i ddod yn fwy cystadleuol wrth gadw'r gweithwyr sydd ganddynt eisoes.

Byddai mwy o gefnogaeth i awdurdodau lleol i gynnig prentisiaethau a chyfleoedd hyfforddi eraill yn darparu sylfaen gadarn a dylai fod yn rhan o strategaeth genedlaethol ehangach ar gyfer y gweithlu sy'n ystyried rôl y proffesiwn iechyd yr amgylchedd wrth gyflawni agenda Cymru sef lleihau anghydraddoldebau iechyd.

**Mae Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i wneud y canlynol:**

- **Buddsoddi yn y gweithlu:** Creu cronfa wedi'i neilltuo i gefnogi prentisiaethau, hyfforddiant a datblygiad gyrfa ar gyfer ymarferwyr iechyd yr amgylchedd.
- **Cefnogi cyflog teg:** Gweithio gydag awdurdodau lleol i fynd i'r afael â gwahaniaethau cyflog a gwella cadw staff.
- **Datblygu strategaeth gweithlu:** Cydlynu strategaeth genedlaethol i dyfu a chynnal y proffesiwn iechyd yr amgylchedd yng Nghymru, sydd yn cyd-fynd â blaenoriaethau iechyd y cyhoedd ac yn ystyried barn cyrff proffesiynol, awdurdodau lleol, ac addysg uwch ac addysg bellach.
- **Cefnogi Prentisiaeth lefel 6 mewn Iechyd yr Amgylchedd yng Nghymru.**



# 2. Lleihau anghydraddoldebau iechyd

Mae iechyd yr amgylchedd yn ganolog i leihau anghydraddoldebau iechyd trwy fynd i'r afael â phenderfynyddion cymdeithasol iechyd – tai, amgylchedd, addysg, cyflogaeth a diogelwch cymunedol – a thrwy hybu amgylcheddau naturiol ac adeiledig iach. Er enghraifft, gall llygredd aer achosi clefyd y galon a chylchrediad y gwaed, ac yng Nghymru mae'r baich o ddod i gysylltiad â llygredd aer hirdymor yn cyfateb i 1,000-1,400 o farwolaethau bob blwyddyn[1].

Mae'r sefyllfa yng Nghymru yn llwm:

- **Mae anghydraddoldebau iechyd yn parhau:** Roedd modd osgoi 22.7 % o'r marwolaethau yng Nghymru yn 2022[2]; mae cymunedau difreintiedig yn wynebu mwy o amlygiad i lygredd, sŵn, a thai gwael[3].
- **Cartrefi oer a llaith:** Mae 238,000 o gartrefi yng Nghymru (18 % o'r stoc) o ansawdd gwael, sy'n costio £95 miliwn y flwyddyn i'r GIG[4]. Mae cartrefi oer yn cyfrannu at farwolaethau gormodol yn y gaeaf a phroblemau iechyd meddwl[5].

**Mae CIEH yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i wneud y canlynol:**

- **Gwella safonau tai:** Cefnogi gorfodi rheoliadau tai a buddsoddi mewn effeithlonrwydd ynni i ddod â phob cartref i Fand C erbyn 2030.
- **Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau amgylcheddol:** Blaenoriaethu gweithredu mewn cymunedau yr effeithir arnynt fwyaf gan lygredd, sŵn, a thai gwael. Mae hyn yn golygu gweithio'n uniongyrchol gydag awdurdodau lleol sy'n gwasanaethu'r cymunedau hyn a sicrhau bod ganddynt eu cyflenwad llawn o ymarferwyr iechyd yr amgylchedd.

[1] Iechyd Cyhoeddus Cymru (2020), phw.nhs.wales/services-and-teams/environmental-public-health/air-quality/air-pollution-and-health-fact-sheet/ gwelwyd 12 Tachwedd 2025

[2] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG), a ryddhawyd ar 18 Mehefin 2024, gwefan y SYG, bwletin ystadegol, Marwolaethau y gellir eu hosgoi yng Nghymru a Lloegr: 2021 a 2022

[3] Michael Marmot, Jessica Allen, Tammy Boyce, Peter Goldblatt, Joana Morrison (2020) Health equity in England: The Marmot Review 10 years on. Llundain: Sefydliad Cydraddoldeb Iechyd. Er mai astudiaeth yn Lloegr yw hon, mae'n cyfeirio at debygrwydd â'r sefyllfa yng Nghymru

[4] Nicol S, Garrett H, Woodfine L, Watkins G, Woodham A. (2019). Cost lawn tai gwael yng Nghymru, Building Research Establishment Ltd, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Llywodraeth Cymru. Dyma'r ymchwil ddiweddaraf ar gyfer Cymru gyfan, ond mae'n gyson â diweddariad StatsCymru ym mis Hydref 2023 a nododd nad yw 22.4 % o'r stoc tai cymdeithasol yn cydymffurfio'n llawn â'r SATC. Compliance with the overall Welsh Housing Quality Standard by provider and measure gwelwyd 13 Hydref 2025

[5] Janssen H, Gascoyne B, Ford K, Hill R, Roberts M ac Azam S (2022). Cold homes and their association with health and well-being: a systematic literature review. Wrecsam: Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru

# 3. Mesurau diogelu cryfach i ddefnyddwyr

Rydyn ni i gyd yn disgwyl gallu ymddiried yn y bwyd rydyn ni'n ei fwyta a'r adeiladau rydyn ni'n byw neu'n gweithio ynddynt. Mae arolygiadau gan ymarferwyr iechyd yr amgylchedd yn galluogi sefydliadau i sicrhau eu bod yn bodloni safonau diogelwch. Rydym yn helpu sefydliadau i ddeall a chydymffurfio'n wirfoddol â'r rheolau a'r fframweithiau sy'n effeithio arnynt, fel y gallant weithredu gyda chyn lleied o drafferthion ac mor gost-effeithiol â phosibl, wrth gyflawni eu cyfrifoldebau.

Mae'r data diweddaraf yn dangos bod gan 96.9% o fusnesau bwyd yng Nghymru sgôr hylendid bwyd o 3 neu well[6], sy'n golygu nad oedd tua **930 o fusnesau o bob maint yn bodloni'r safonau hylendid bwyd gofynnol.** Fodd bynnag, anghysondeb yw y gall busnesau bwyd ddechrau masnachu cyn cael eu harchwilio a chael y gwiriadau angenrheidiol, gan beri risgiau i ddefnyddwyr. Mae hyn yn annheg i fusnesau sydd wedi cael eu gwirio a'u dilysu fel rhai sy'n bodloni'r safonau y mae pob dinesydd yn ei ddisgwyl. Felly, rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu system 'trwydded i fasnachu' neu system newydd arall ar gyfer y broses gofrestru bresennol, fel bod busnesau'n cydymffurfio o'u diwrnod cyntaf o fasnachu, gan helpu i gefnogi eu llwyddiant a'u cynaliadwyedd, a darparu mwy o dryloywder i ddefnyddwyr a chwarae teg i bob busnes.

Yn yr un modd, bydd y Bil Diogelwch Adeiladau yn rhoi rheidrwydd ar dimau amlddisgyblaethol i oruchwylio rheoliadau newydd. Rydym yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i sicrhau bod gan y timau hynny yr adnoddau i gael gafael ar yr arbenigedd proffesiynol sy'n angenrheidiol i gyflawni eu dyletswyddau newydd.

**Mae CIEH yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i wneud y canlynol:**

- **Datblygu a chyflwyno system 'trwydded i fasnachu'** fel bod pob sefydliad sy'n gwerthu bwyd wedi cael ei archwilio cyn dechrau masnachu.
- **Cefnogi timau amlddisgyblaethol mewn awdurdodau lleol** i gyflawni eu dyletswyddau o dan y Bil Diogelwch Adeiladau, ar ôl ei basio.

[6] Adroddiad Blynyddol Asiantaeth Safonau Bwyd, Cymru 2023-2024

# Casgliad

Nid moethusrwydd yw iechyd yr amgylchedd – mae'n angenrheidiol. Wrth i Gymru edrych i'r dyfodol, rhaid i ni fuddsoddi yn y bobl a'r systemau sy'n diogelu ein hiechyd, lleihau anghydraddoldebau, a chreu cymunedau gwydn.

Mae'r maniffesto hwn yn galw ar bob plaid sy'n sefyll etholiad i Senedd 2026 i ymrwymo i’r canlynol:

- Diogelu'r gweithlu iechyd yr amgylchedd
- Lleihau anghydraddoldebau iechyd
- Mesurau diogelu cryfach i ddefnyddwyr

Gyda'n gilydd, gallwn greu Lles Cymru.



Chartered Institute of Environmental Health
Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd

# Amdanom ni

Mae Iechyd yr Amgylchedd yn dwyn pum disgyblaeth graidd ynghyd: diogelu'r amgylchedd, diogelwch ac uniondeb bwyd, diogelwch yn y gweithle, safonau tai ac iechyd y cyhoedd. Mae gan Ymarferwyr Iechyd yr Amgylchedd ddiddordeb mewn unrhyw agwedd ar yr amgylchedd sy'n effeithio ar iechyd a lles y ddynoliaeth.

Mae'r Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd wedi bod yn llais i iechyd yr amgylchedd ers 1883. Rydym yn cefnogi'r cyhoedd, gweithwyr proffesiynol iechyd yr amgylchedd a llunwyr polisi trwy ddarparu gwybodaeth, hyfforddiant, eiriolaeth a safonau proffesiynol. Ein cenhadaeth yw diogelu'r cyhoedd, cefnogi gweithwyr proffesiynol a dylanwadu ar bolisi i wella iechyd a lles.

Mae'r Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd yn elusen gofrestredig, wedi'i hymgorffori gan Siarter Frenhinol, ac mae'n cynrychioli dros 7,500 o weithwyr iechyd yr amgylchedd proffesiynol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Rydym yn gweithredu'n genedlaethol ac yn rhyngwladol, gan gynnig datblygiad proffesiynol, ymgyrchu ar faterion iechyd y cyhoedd, a chynnal safonau uchel mewn ymarfer iechyd yr amgylchedd.

Cyswllt:
**Richard Fernandez,** *Pennaeth Polisi a Materion Allanol*
r.fernandez@cieh.org






**CIEH**

Chadwick Court,
15Hatfields,
London SE1 8DJ

+44 (0)20 7827 5800

info@cieh.org

cieh.org